# Comisiwn y Cynulliad

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Gynhadledd 4B – Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 5 Ebrill 2017** |
| Amser: | **08.35 – 09.25** |

## Cofnodion: AC(5)2017(4)

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Comisiwn: | **Elin Jones AC (Cadeirydd)**<br>**Suzy Davies AC**<br>**Adam Price AC**<br>**Joyce Watson AC** |
| Swyddogion yn bresennol: | **Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc**<br>**Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd**<br>**Dave Tosh, Cyfarwyddwr Adnoddau**<br>**Sulafa Thomas, Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau** |
| Eraill yn bresennol: | **Manon Antoniazzi** |

## 1 Cyflwyniad

### 1.1 Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Caroline Jones AC.

### 1.2 Datgan buddiannau

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant.

### 1.3 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mawrth.

## 2 Diwallu ein hanghenion o ran adeiladau yn y dyfodol

Trafododd y Comisiynwyr y wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd mewn ymateb i faterion, ymholiadau a chwestiynau penodol a godwyd ganddynt yn y cyfarfod blaenorol.

Cytunodd y Comisiynwyr i ddiystyru opsiwn yr ystyriwyd nad oedd yn ffordd ymarferol ac effeithiol o fodloni anghenion llety.

Nododd y Comisiynwyr feysydd eraill ar gyfer ystyriaeth fanylach mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 3 Unrhyw fater arall

Dim, hyd y gwyddys.